Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

# Canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru

Mai 2019

## Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi'r broses o gomisiynu ymyriadau integredig a seiliedig ar dystiolaeth gan wasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, i gyflawni â pwrpas Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').

Nod y canllawiau hyn yw hybu comisiynu cydweithredol safonol sy'n cynnig gwasanaethau sy'n fwy cyson ac effeithiol er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelu a chefnogi dioddefwyr VAWDASV ar draws Cymru. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gomisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector.

## Rhagor o wybodaeth

Y Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Yr Is-adran Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

e-bost: VAWDASV@llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019 WG37128 ISBN digidol 978-1-78964-758-7

# Cynnwys


Rhan 1 – Gair am y canllawiau ..... 5

1.1 Nod ..... 5

1.2 Statws ..... 6

1.3 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ..... 7

Rhan 2 - Cwmpas y canllawiau ..... 8

2.1 Cyflwyniad ..... 8

2.2 Cwmpas ..... 8

2.3 Dull rhanbarthol a chydweithredol ..... 8

2.4 Comisiynu ..... 11

2.5 Ymgysylltu â goroeswyr ..... 12

2.6 Y trydydd sector ..... 13

2.7 Gwasanaethau VAWDASV arbenigol ..... 13

2.8 Gwasanaethau ar gyfer cyflawnwyr ..... 15

2.9 Egwyddorion comisiynu ..... 16

2.10 Comisiynu drwy gaffael a chyllid grant ..... 17

Rhan 3 - Comisiynu rhanbarthol ..... 19

3.1 Pwrpas a nodau strategol y rhanbarth ..... 19

3.2 Aelodaeth, rolau a gwerthoedd y rhanbarth ..... 19

3.3 Llywodraethu ..... 20

Rhan 4 - Y cylch comisiynu ..... 21

4.1 Dull comisiynu ar sail canlyniadau ..... 21

4.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ..... 21

4.3 Ystyriaethau ar gyfer y cylch comisiynu ..... 22

4.4 Defnyddio data ..... 22

4.5 Dadansoddi’r bylchau ..... 22

4.6 Gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg ..... 22

4.7 Cynhyrchu’r strategaeth gomisiynu ..... 23

4.8 Sefydliadau trydydd sector a chymunedol ..... 23

4.9 Taro cydbwysedd o ran gwasanaethau ..... 24

4.10 Comisiynu gwasanaethau ar sail canlyniadau ..... 24

4.11 Egwyddorion cydgynhyrchu ..... 25
4.12 Monitro a gwerthuso ..... 27
4.13 Gwerthuso perfformiad ..... 27
4.14 Adolygu'r farchnad ..... 27
4.15 Sganio’r gorwel ..... 28
Atodiad 1 ..... 29
Deddfwriaeth, Polisïau a Strategaethau ..... 29
Geirfa ..... 34

# Rhan 1 – Gair am y canllawiau

## 1.1 Nod

Nod y canllawiau hyn yw hyrwyddo comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel er mwyn darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr VAWDASV ar draws Cymru. Maent yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol, boed o'r sectorau cyhoeddus a phreifat neu'r trydydd sector.

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi'r broses o gomisiynu ymyriadau integredig a seiliedig ar dystiolaeth gan wasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, er mwyn cyflawni pwrpas Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').

Dylai'r gwasanaethau a gomisiynir sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr – p'un ai'n oedolion neu'n blant – yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi'n briodol. Mae'r canllawiau'n annog asiantaethau i gydnabod bod atal VAWDASV yn fater i bawb, ac i gydweithio er mwyn darparu fframwaith comisiynu a darparu effeithiol a fydd yn sicrhau llesiant y rheini sydd wedi'u heffeithio gan drais a cham-drin, yn dal y camdrinwyr i gyfrif am eu hymddygiad, ac yn cyfrannu at atal VAWDASV mewn cymunedau lleol.

Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio felly gan:

- gomisiynwyr gwasanaethau presennol ac i'r dyfodol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- darparwyr gwasanaethau statudol neu anstatudol, arbenigol ac anarbenigol;
- yr holl awdurdodau perthnasol a restrir yn y Ddeddf ynghyd ag awdurdodau cyfrifol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998;
- y rheini sydd â diddordeb mewn darparu cyllid ar gyfer VAWDASV a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru.

## 1.2 Statws

Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb sy’n comisiynu gwasanaethau gan fod materion VAWDASV yn cyffwrdd â chymaint o wahanol feysydd. Maent yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau VAWDASV a gwasanaethau cysylltiedig gan awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf. Diffinnir awdurdodau perthnasol fel awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG, ac i’r graddau hynny bydd y canllawiau'n dod yn statudol o 1 Ebrill 2019 ac yn cael eu cyhoeddi o dan adran 15 o’r Ddeddf (‘pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol’).

Ni ellir comisiynu gwasanaethau VAWDASV heb ystyried gwasanaethau eraill a gomisiynir. I sicrhau proses gydgysylltiedig a chydweithredol, bwriedir i'r canllawiau helpu i gomisiynu gwasanaethau eraill cysylltiedig gan gomisiynwyr o'r awdurdodau perthnasol, adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r system cyfiawnder troseddol sy'n ceisio cyflawni dibenion y Ddeddf; ac i’r graddau hynny fe'u cyhoeddir o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dyma enghreifftiau o feysydd trawsbynciol i'w hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau:
cyflawni'r meysydd blaenoriaeth cenedlaethol a nodwyd megis gwaith blynyddoedd cynnar a rhaglenni tai a digartrefedd, diogelu oedolion a phlant a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac emosiynol, gwrth-dlodi a chamddefnyddio sylweddau, a sgiliau a chyflogadwyedd;

- rheoli troseddwyr a lleihau aildroseddu;
- darparu ardaloedd peilot ‘rhyddid / hyblygrwydd’ a’r grant EIPS, er mwyn hyrwyddo ymyrraeth gynnar a gweithredu ataliol mewn cymunedau lleol.

Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â’r pecyn cymorth arfer da *Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Pecyn Cymorth ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau’n Gydweithredol yng Nghymru* sydd wedi’i ddatblygu gan Sefydliad Banc Lloyds ar y cyd â Chymorth i Fenywod Cymru, Imkaan, SafeLives, Women’s Aid Federation England a gwasanaethau arbenigol ledled Cymru.

Nid yw’r canllawiau’n ceisio ailadrodd y Pecyn Cymorth ond yn hytrach mae'n nodi beth yw gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Disgwylir i gomisiynwyr ystyried y Pecyn Cymorth wrth gomisiynu. Felly, dylid darllen y ddwy ddogfen gyda’i gilydd.

https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

Mae Pecyn Cymorth Sefydliad Banc Lloyds yn cydnabod bod nifer o lwybrau posibl ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Dylai cyrff comisiynu sicrhau eu bod yn cadw at eu polisïau a’u gweithdrefnau caffael mewnol eu hunain ac at unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, er enghraifft Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Dylid hefyd darllen y canllawiau ar y cyd â Dogfen Cefnogi Comisiynu Lleol y Swyddfa Gartref ar gyfer Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Merched (ar gyfer Lloegr) a’r Datganiad Cenedlaethol ar Ddisgwyliadau ar gyfer Cymru a Lloegr.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/576238/VAWG_Commissioning_Toolkit.pdf
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574665/VAWG_National_Statement_of_Expectations_-_FINAL.PDF

Mae'r Swyddfa Gartref yn cyfeirio at, ac yn ardystio'r safonau ym Mhecyn Cymorth Sefydliad Banc Lloyds a'r fframweithiau achredu yn eu canllawiau Cefnogi Comisiynu Lleol, sy'n nodi ei bod yn bwysig i ansawdd gwasanaethau gyd-fynd â'r Safonau Craidd Cenedlaethol a Rennir ac y dylid comisiynu gwasanaethau ar sail y safonau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r safonau craidd hyn yn rhoi cyfarwyddyd i gomisiynwyr ei ystyried wrth gomisiynu ar y cyd ar gyfer VAWDASV. Nid ydynt yn orfodol i bob gwasanaeth, ond byddant helpu comisiynwyr i gomisiynu ar y cyd er mwyn diwallu anghenion pobl yn fwy effeithiol.

Dylid darllen Canllaw Arweiniol yr IPC hefyd i ddysgu mwy am ddulliau cydweithredol o gomisiynu.

https://ipc.brookes.ac.uk/publications/pdf/Leading_Integrated_%26_Collaborative_Commissioning.pdf

## 1.3 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Diben y Ddeddf hon yw sicrhau ymateb gwell gan y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Y prif amcanion polisi wrth weithredu'r Ddeddf yw gwella'r trefniadau ar gyfer:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'u hatal, a diogelu a chefnogi dioddefwyr;
- cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a'r atebolrwydd am drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- gwella cysondeb, ansawdd a chydlyniant y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.

Mae'r Canllawiau Comisiynu'n cefnogi gweithredu'r Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod trais yn erbyn menywod yng Nghymru'n torri hawliau dynol. Mae'n achosi anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion ac yn deillio ohono, ac yn cael effaith anghymesur ar fenywod o ran pob math o drais. Yn rhyngwladol, cydnabuwyd hyn yng Nghonfensiwn Cyngor Ewrop ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig (Confensiwn Istanbwl); yn Natganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod; ac yn fwy diweddar yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 2030.

Mae Datganiad y Cenhedloedd Unedig yn diffinio trais yn erbyn menywod fel: 'unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at, neu sy'n debygol o arwain at niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i fenywod, gan gynnwys bygwth gweithred o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu rhywun yn fympwyol o'u rhyddid, p'un ai'n gyhoeddus neu mewn bywyd preifat.'

http://www.un-documents.net/a48r104.htm

Mae Llywodraeth Cymru’n cefnogi egwyddorion Confensiwn Istanbwl ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig ac mae’r DU yn un o'r gwledydd a ymrwymodd iddo. Mae’n nodi safonau gofynnol ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, amddiffyn dioddefwyr ac erlyn cyflawnwyr.
https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/about-the-convention

# Rhan 2 - Cwmpas y canllawiau

## 2.1 Cyflwyniad

Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy’n arfer swyddogaethau perthnasol ystyried a oes angen dileu neu leihau unrhyw ffactorau sy’n cynyddu’r risg o drais yn erbyn menywod a merched ac sy’n gwaethygu effaith trais o’r fath. Ei fwriad yw rhoi ffocws strategol ar y pethau hyn a sicrhau cysondeb wrth ystyried dulliau atal, amddiffyn a chefnogi wrth ddarparu gwasanaethau.

## 2.2 Cwmpas

Mae’r canllawiau hyn yn cynnig fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau i fynd i'r afael â VAWDASV er mwyn diwallu anghenion yn effeithiol a theg ar draws Cymru. Fe'i ddatblygwyd yn dilyn trafodaeth ag ymarferwyr VAWDASV arbenigol a gyda chymorth grŵp gorchwyl a gorffen o randdeiliaid allweddol.

Bydd y canllawiau'n sicrhau bod y broses gomisiynu'n ystyried yr anghenion, y problemau a'r rhwystrau penodol a allai fod gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac sydd efallai wedi'u gwthio i’r cyrion neu eu heithrio, gan gynnwys menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anabl a phobl sy’n LGBT+.

Ar hyn o bryd, ceir ystod eang o drefniadau cytundebol rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru, sy’n golygu bod y sefyllfa o ran cyllid yn gymhleth. Mae cyllid sy'n croesi ffiniau datganoledig ac annatganoledig yng Nghymru, sy'n aml â gwahanol drefniadau a gofynion, yn ychwanegu at y cymhlethdod hwn.

Mae dulliau integredig a chydweithredol eisoes ar waith rhwng awdurdodau perthnasol a darparwyr gwasanaeth eraill. Dylai'r comisiynwyr adeiladu ar y rhain lle maent yn gweithio’n dda, gan ddatblygu cysylltiadau ffurfiol â threfniadau adrodd i bartneriaethau rhanbarthol. Bydd hyn yn fodd i ddatblygu dulliau'n lleol er mwyn gallu cynnwys y rheini sy’n defnyddio’r gwasanaethau yn y gwaith o ddatblygu, comisiynu ac adolygu gwasanaethau cymorth.

## 2.3 Dull rhanbarthol a chydweithredol

Mae sefydliadau ac awdurdodau perthnasol yn cydweithio ac yn datblygu seilwaith ar gyfer gweithio tuag at gomisiynu ar sail ranbarthol, a bydd cyllid rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau VAWDASV yn hwyluso hyn. Bydd cydweithredu rhanbarthol yn cyd-fynd â thrywydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r gwelliannau i drefniadau darparu'r rhaglen

Cefnogi Pobl. Bydd hefyd yn helpu i wreiddio'r pum ffordd o weithio (egwyddor datblygu cynaliadwy) yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio'n helpu cyrff cyhoeddus i weithio'n well gyda'i gilydd, i osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu:

**Hirdymor** - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd;
**Atal** - ystyried sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion;
**Cynnwys** - pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu;
**Integreiddio** - ystyried sut gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
**Cydweithio** - gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

**Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Dylunio Gwasanaethau**
Mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Dylunio Gwasanaethau'n disgrifio beth mae'r pum dull o weithio yn ei olygu'n ymarferol ar gyfer dylunio gwasanaethau, gan nodi cyfres o gwestiynau i'w hystyried.

Dylai'r fframwaith gael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n dylunio a goruchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau er mwyn eu hannog i feddwl, cael trafodaethau strwythuredig a gwneud penderfyniadau am ddulliau newydd o weithio. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n gadarn ac yn ceisio gwella llesiant pobl nawr ac yn y dyfodol.

http://gov.wales/topics/improvingservices/future-generations-framework-for-service-design/?lang=cy

Bydd partneriaethau VAWDASV cydweithredol rhanbarthol yn cynnwys yr holl awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir o dan adran 14 o'r Ddeddf).

Ni all Llywodraeth Cymru bennu cyrff eraill nad oes ganddi bwerau datganoledig drostynt. Ond, disgwylir y bydd partneriaethau rhanbarthol yn gwahodd cyrff penodedig i gymryd rhan yn eu gweithgareddau. Os ydynt yn derbyn y gwahoddiad, nid ydynt yn dod yn awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf , ond yn 'gyfranogwyr gwadd'. Ni ddylai fod unrhyw beth i atal y cyrff hyn rhag cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r partneriaethau rhanbarthol. Rhaid gwahodd y canlynol i gymryd rhan:

- Prif Gwnstabl yr heddlu mewn ardal heddlu, lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn y rhanbarth;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu ardal heddlu, lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn y rhanbarth;
- person y mae'n ofynnol iddynt, o dan drefniadau yn adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007, ddarparu gwasanaethau prawf i'r rhanbarth;

- o leiaf un corff sy'n cynrychioli gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn y rhanbarth, a mwy nag un os yn bosibl, o blith fforymau'r darparwyr gwasanaethau VAWDASV arbenigol rhanbarthol, i sicrhau bod y gynrychiolaeth yn adlewyrchu'r ystod amrywiol o faterion sy'n cael sylw gan y gwasanaethau arbenigol (cam-drin domestig; treisio a thrais rhywiol; ecsbloetio rhywiol, gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw; caethwasiaeth fodern; priodi dan orfod; trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir; camffurfio organau cenhedlu benywod; cam-drin plant yn rhywiol; stelcian; ac aflonyddu rhywiol).

Gallai aelodau eraill y gwahoddir iddynt gymryd rhan yn y bartneriaeth ranbarthol gynnwys asiantaethau a sefydliadau perthnasol nad ydynt wedi'u henwi uchod ond sydd â diddordeb mewn comisiynu gwasanaethau cysylltiedig â VAWDASV.

Rydym yn cydnabod y gallai fod strwythurau'n bodoli eisoes ar gyfer gweithredu'r partneriaethau VAWDASV. O'u defnyddio, bydd yn hollbwysig bod comisiynu gwasanaethau VAWDASV yn rhan glir o gylch gwaith unrhyw fwrdd partneriaeth. Nid yw'r canllawiau'n mynnu ar strwythurau penodol. Yn hytrach, eu nod yw hwyluso'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd hefyd angen i bartneriaethau VAWDASV cydweithredol rhanbarthol sicrhau bod eu gwaith yn cysylltu ac yn cyd-fynd â gwaith partneriaethau diogelwch cymunedol lleol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Troseddu ac Anrhefn 1998, ond nad yw'n dyblygu'r gwaith hwnnw.

Mae Deddf 1998 yn nodi dyletswyddau 'awdurdodau cyfrifol' o ran mynd i'r afael â throseddu ac anrhefn yn eu hardaloedd lleol, a'r enw cyfunol ar yr awdurdodau hyn yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP). Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn cyflawni eu swyddogaethau statudol o dan eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) neu'n gweithio i sefydlu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol rhanbarthol.

Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cyflawni asesiadau strategol blynyddol o droseddu ac anrhefn yn eu hardal leol – a ddylai gyfrannu at y dull rhanbarthol a chydweithredol o gomisiynu – a datblygu cynlluniau i atal a lleihau troseddu ac anrhefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu.

Un o swyddogaethau'r partneriaethau comisiynu rhanbarthol fydd llunio strategaethau a chynlluniau comisiynu i lywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau VAWDASV, yn unol â'r strategaethau rhanbarthol/lleol a ddatblygwyd o dan adran 5 y Ddeddf.

Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos ac ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol i asesu angen a darpariaeth leol, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau. Y nod fydd sicrhau gwerth am arian a hyblygrwydd y gwasanaethau a ariennir er mwyn diwallu anghenion lleol, darparu gwasanaeth gwell i ddioddefwyr a hefyd canolbwyntio ar wasanaethau atal a gwasanaethau i gyflawnwyr.

Bydd gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ryddid i alinio fel y bo'n briodol i sicrhau cysondeb a chydweithredu mwy effeithiol rhwng asiantaethau wrth ddarparu gwasanaethau VAWDASV ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol y mae eu hardaloedd yn gorgyffwrdd baratoi strategaeth VAWDASV leol ar y cyd. Gellir paratoi strategaethau lleol ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill cyn belled ag y bo'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol hefyd yn rhan o'r broses.

Y nod wrth symud at ddull rhanbarthol yw:
- dylunio, caffael a chontractio gwasanaethau'n fwy effeithiol;
- gwella canlyniadau i bobl ar draws y rhanbarth a sicrhau bod llai o ddefnyddwyr gwasanaethau yn profi canlyniadau negyddol gan wasanaethau;
- darparu trefniadau comisiynu cyffredin a symlach sy'n sicrhau llwybrau cymorth integredig i ddiwallu anghenion dioddefwyr sy'n profi anfanteision lluosog;
- gweithredu dulliau cyffredin sy'n annog defnydd gwell o ddata a dadansoddi ac yn hyrwyddo penderfyniadau strategol mwy effeithiol, fel bod mwy o ddefnyddwyr yn cael gwasanaethau priodol ac effeithiol;
- llai o ddyblygu o ran gweithgareddau comisiynu;
- datblygu model ariannu mwy cynaliadwy sy'n sicrhau gwell gwerth am arian ac yn hybu buddsoddiad mewn gwasanaethau drwy gronni cyllidebau, gan gynnwys cyllidebau craidd awdurdodau perthnasol;
- rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau er mwyn gallu bod yn fwy hyblyg ac arloesol wrth ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau;
- sicrhau bod plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr VAWDASV yn derbyn gwasanaethau sy'n cyflawni eu hawl i gael eu diogelu a'u cefnogi;
- canolbwyntio'r cyllid ar ddarparu'n uniongyrchol yn hytrach na chydgysylltu'n gyffredinol: dylai hyn ddod yn fusnes craidd i awdurdodau lleol fel rhan o'r ddyletswydd newydd i ddarparu strategaethau lleol ar VAWDASV;
- ymestyn cyrhaeddiad rhai gwasanaethau a lleihau dyblygu yn achos eraill;
- hyrwyddo perthnasoedd gwaith effeithiol, ac ymddiriedaeth a chyfathrebu da rhwng sefydliadau;
- cryfhau atebolrwydd a chydweithrediad rhwng partneriaethau rhanbarthol a lleol drwy gyd-flaenoriaethu, yn enwedig yng nghyswllt datblygu strategaethau lleol; a
- gwella llywodraethu ac arweinyddiaeth strategol drwy bartneriaethau comisiynu rhanbarthol.

## 2.4 Comisiynu

Fel arfer, disgrifir comisiynu fel cylch i bennu sut orau i gyflawni amcanion strategol ac amcanion lefel gwasanaeth drwy nodi'r angen, cwmpasu'r farchnad ddarparwyr, defnyddio arbenigedd, dylunio gwasanaeth, penderfynu pa adnoddau i'w dyrannu i'r gwasanaeth, nodi'r darparwr a monitro'r ddarpariaeth.

Yn ogystal â phenderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen a'u dyluniad, mae hefyd yn bwysig ystyried dulliau o wella, darparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Anogir comisiynwyr i fod yn arloesol a rhannu arfer da ar draws Cymru.

Dylai comisiynwyr weithredu dull trylwyr o asesu anghenion eu hardal leol a nodi gwasanaethau sy'n cynnig gwell gwerth a chanlyniadau i ddefnyddwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd. Bydd angen ystyried yr anghenion, y problemau a'r rhwystrau penodol a allai fod gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac sydd efallai wedi'u gwthio i'r cyrion neu eu heithrio, gan gynnwys menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anabl a phobl sy'n LGBT+.

Gall awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill gynnig grantiau i gyrff trydydd sector a llunio contractau ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau. Mae offeryn gwneud penderfyniadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn nodi tair 'sianel ariannu' – **caffael** (h.y. contractau), **grant**, a **chymorth grant -** ac yn amlinellu proses pedwar cam ar gyfer penderfynu pa sianel ariannu i'w defnyddio. Mae angen i benderfyniadau ynghylch dulliau ariannu priodol ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys fframweithiau deddfwriaethol, polisïau ac amcanion polisi, ac egwyddorion fel gwerth am arian. Mae hefyd yn bwysig sicrhau mynediad teg at ffrydiau ariannu, yn enwedig i gyrff bach yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau VAWDASV arbenigol.

Mae Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru'n darparu canllawiau manwl i gyrff cyhoeddus ar gomisiynu a chaffael gwasanaethau:

http://prp.wales.gov.uk/

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol yn adran 5.2 o Becyn Cymorth Sefydliad Banc Lloyds am wahanol fodelau caffael a chomisiynu, gan gynnwys y 'gyfundrefn ysgafn' newydd sy'n golygu y gall contractau gwerth llai na thua £560,000 (€750,000) ddewis darparwyr gwasanaeth sy'n gweddu orau i anghenion lleol a gall comisiynwyr fod yn greadigol yn eu dulliau, gan gynnwys defnyddio cyllid grant.

Mae atal VAWDASV yn ganolog i wella iechyd a llesiant, lleihau troseddu a'r niwed a achosir gan droseddu treisgar; diogelu plant ac oedolion; a hyrwyddo addysg a dysgu a chydraddoldeb.

Mae angen dull trawsbynciol ac integredig arnom i roi diwedd ar bob math o VAWDASV. Bydd cydweithio â phartneriaid statudol, y trydydd sector a goroeswyr i ddylunio a darparu gwasanaethau yn hollbwysig o'r dechrau er mwyn llunio strategaeth gomisiynu effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gweler tudalen 27 am ragor o wybodaeth am gydgynhyrchu.

## 2.5 Ymgysylltu â goroeswyr

Mae'n rhaid i gomisiynwyr ymgysylltu â goroeswyr sydd wedi profi pob math o VAWDASV wrth fynd ati i gomisiynu gwasanaethau VAWDASV, a dylai fod gan gwasanaethau arbenigol yr adnoddau i gefnogi hyn. Cafodd y Strategaeth Genedlaethol ei llywio gan sylwadau goroeswyr ac mae'n rhestru eu deg argymhelliad allweddol, a cheir argymhellion pellach ar gyfer gwahanol asiantaethau yn yr adroddiad llawn:

http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are_you_listening_and_am_I_being_heard_FINAL_July_2016.pdf

Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr gyda chymorth goroeswyr. Ei ddiben fydd:

- darparu arfer gweithio ffurfiol y gall goroeswyr ei ddefnyddio i ddatblygu, effeithio a dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar VAWDASV,
- a sicrhau bod goroeswyr yn gallu eirioli a siarad drostynt eu hunain fel rhan o weithgareddau cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
Mae'n bwysig ystyried pa anghenion, problemau a rhwystrau penodol a allai fod gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac sydd efallai wedi eu gwthio i'r cyrion neu eu heithrio, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches.  Yn ogystal â bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n bwysig bod hawliau dynol pobl yn cael eu cynnal a bod gofynion Deddf Hawliau Dynol 2000 yn cael eu bodloni.

## 2.6 Y trydydd sector

Mae gan sefydliadau'r trydydd sector rôl allweddol o ran cynnig gwasanaethau ymatebol, hyblyg ac arloesol sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr ac anghenion y gymuned. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector hefyd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Ddeddf a'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'n bwysig felly bod comisiynwyr yn ceisio diogelu a gwella cryfderau ac arbenigedd darparwyr gwasanaethau cymunedol bach wrth ystyried dulliau caffael ar draws eu rhanbarth.

Mae'n rhaid cynnwys sefydliadau'r trydydd sector yn glir drwy gydol y broses gomisiynu er mwyn iddynt allu cyfrannu'n adeiladol at y gwaith o ddylunio, darparu ac adolygu rhaglenni, gan ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaethau. Mae'n arbennig o bwysig cynnwys cyrff arbenigol sy'n darparu gwasanaethau VAWDASV.

O dan adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun yn nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo buddiannau'r trydydd sector a darparu cymorth i gyrff gwirfoddol perthnasol. Yr enw ar y cynllun hwn yw Cynllun y Trydydd Sector (mae Deddf 2006 yn cyfeirio ato fel 'cynllun y sector gwirfoddol'). Gweler adran 6.5.

https://www.wcva.org.uk/media/818416/140130-third-sector-scheme-cy.pdf

## 2.7 Gwasanaethau VAWDASV arbenigol

Gall pobl sy'n profi VAWDASV gael cymorth gan ystod o wasanaethau, nid dim ond gan wasanaethau VAWDASV arbenigol. Gall y rhain fod yn gyrff cymunedol neu drydydd sector sy'n darparu cymorth lles, cyngor cyfreithiol, cyngor ariannol a chyngor ar fewnfudo a/neu ar dai, ynghyd ag ymyriadau i gefnogi goroeswyr a herio

cyflawnwyr ar draws y ddarpariaeth statudol gan awdurdodau lleol (tai, gwasanaethau plant a theuluoedd, a gwasanaethau addysg), gwasanaethau iechyd (gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gwasanaethau mamolaeth a deintyddol a thriniaeth frys) a gwasanaethau'r system gyfiawnder (yr heddlu, rheoli troseddwyr, llysoedd a chynghorwyr cyfreithiol).

Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn wahanol i'r gwasanaethau cyffredinol sy'n darparu cymorth neu ymyriadau i oroeswyr neu gyflawnwyr yn y trydydd sector a/neu'r sector cyhoeddus. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu gan staff arbenigol sydd â gwybodaeth drwyadl am VAWDASV ynghyd â dealltwriaeth ryweddol a thrawsdoriadol o VAWDASV. Yng Nghymru, diffinnir gwasanaethau VAWDASV arbenigol fel sefydliadau sy'n:

- darparu gwasanaethau'n annibynnol i'r wladwriaeth (h.y. y trydydd sector) a'u busnes craidd yn cynnwys cefnogi goroeswyr a/neu gyflawnwyr a/neu blant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan unrhyw fath o VAWDASV (h.y. treisio ac ymosodiadau rhywiol gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol ond nid yn ddiweddar, cam-drin domestig, harasio rhywiol, priodi dan orfod, FGM, ecsbloetio rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw, masnacha mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, a thrais 'anrhydedd'); a

- darparu ar sail angen a thrwy ymateb i rywedd, gan gydnabod continwwm y trais yn erbyn menywod a sicrhau bod ymyriadau a gwaith atal yn cysylltu VAWDASV i batrymau ehangach o anghydraddoldeb rhyw ac anghydraddoldebau croestoriadol eraill, gan gynnwys tarddiad ethnig, dosbarth, hunaniaeth o ran rhywedd, oed, gallu, rhywioldeb, crefydd a chred; gyda'u dealltwriaeth a'u gwasanaethau wedi'i lywio gan y dadansoddiad bod VAWDASV yn rhywbeth rhyweddol ac wedi'i achosi gan anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion ac yn deillio ohono, sy'n croesdorri â ffactorau fel tarddiad ethnig, oed, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin a llwybrau adfer. Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn cydnabod ei bod yn gwbl bosibl atal y mathau hyn o drais, eu bod yn digwydd yn anghymesur i fenywod a merched oherwydd eu bod yn fenywod a merched, fel math o reolaeth gymdeithasol sy'n cynnal ac ailadrodd pŵer anghyfartal ac yn rhwystr i gyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol i fenywod a merched; a

- darparu gwasanaethau arbenigol sy'n wahanol i wasanaethau 'cymorth cyffredinol' oherwydd bod gan y sefydliadau/gwasanaethau fodel holistaidd o ddarparu gwasanaethau sy'n ymateb i rywedd a diwylliant, yn unol â fframweithiau safonau ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau o'r fath, ac yn cael eu rhedeg gan ac ar gyfer y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Drwy wneud hyn maent yn cynnig profiad grymuso unigryw, yn enwedig i fenywod a phlant a chymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, oherwydd mae'r grŵp cleientiaid wedi'i adlewyrchu yn strwythurau staffio, rheoli a llywodraethu'r sefydliadau hyn.

Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau cyffredinol yn cael ei gefnogi gan y *Confensiwn ar Atal a Threchu Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Domestig* (Confensiwn Istanbwl). Mae'n gwahaniaethu rhwng gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau cyffredinol ar y sail bod gwasanaethau arbenigol yn seiliedig ar ddealltwriaeth ryweddol; bod eu ffocws ar ddiogelwch a hawliau; eu bod

yn osgoi erledigaeth fynych; eu bod yn gallu darparu, lle bo'n bosibl, ystod o wasanaethau ar un safle; bod eu dulliau'n integredig ac yn cydnabod y berthynas rhwng dioddefwyr/goroeswyr, cyflawnwyr a'u hamgylchedd; a'u bod yn mynd i'r afael ag anghenion penodol menywod, plant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr (Cyngor Ewrop, 2012).

Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn gweithredu o fewn fframwaith o safonau ansawdd achrededig sy'n darparu meincnodau i ddarparwyr gwasanaeth, cyllidwyr a chomisiynwyr o ran lefel a chymysgedd y gwasanaethau a ddylai fod ar gael, pwy y dylai eu darparu ac ar sail pa egwyddorion ac arferion y dylent weithredu.

Mae'r Swyddfa Gartref yn cyfeirio at, ac yn ardystio'r safonau a'r fframweithiau achredu hyn yn eu canllawiau ar gyfer Cefnogi Comisiynu Lleol, sy'n nodi ei bod yn bwysig bod ansawdd gwasanaethau yn cyd-fynd â'r Safonau Craidd Cenedlaethol a Rennir ac y dylid comisiynu gwasanaethau ar sail y safonau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw. Dylai'r enghreifftiau o arferion gofynnol a gofynion polisi mewn manyleb ymwneud yn benodol â'r Safonau Craidd Cenedlaethol a Rennir. Mae'r canllawiau hefyd yn egluro eu statws, gan nodi bod safonau a rennir yn helpu comisiynwyr i sicrhau y gellir defnyddio'r safonau annibynnol yn genedlaethol a lleol at ddibenion comisiynu ar y cyd; ac ni fwriedir iddynt fod yn safonau 'ar wahân' ond yn hytrach cytunwyd arnynt fel safonau craidd dynodedig ar y cyd, sef y safonau gofynnol sy'n gyffredin i bob aelod-sefydliad.

Mae cyrff trydydd sector bychain yn darparu llawer o wasanaethau arbenigol ac mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod risg o ran dulliau comisiynu rhanbarthol – yn enwedig y rheini sy'n integreiddio gwasanaethau mwy cyffredinol (e.e. tai â chymorth) a gwasanaethau VAWDASV arbenigol – y gallai darparwyr o'r fath fod o dan anfantais sylweddol mewn prosesau caffael mawr ac y gellir eu colli yn y pen draw. Mae'n bwysig felly bod comisiynwyr yn ceisio diogelu a gwella cryfderau ac arbenigedd darparwyr gwasanaethau arbenigol cymunedol bach wrth ystyried dulliau caffael ar draws eu rhanbarth.

Gweler tudalennau 68-74 o Becyn Cymorth Comisiynu Cymru ar gyfer y safonau craidd a rennir ar gyfer cyrff achredu:

https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

## 2.8 Gwasanaethau ar gyfer cyflawnwyr

Ni ddylid comisiynu gwasanaethau ar gyfer cyflawnwyr ar wahân. Dylid eu hystyried fel rhan o ddull system gyfan ochr yn ochr â gwasanaethau i oroeswyr a gwasanaethau cysylltiedig eraill. Mae'n faes gwaith hynod arbenigol a gallai'r angen i fod yn wrthrychol a chynnal ffiniau cyfrinachedd priodol olygu y bydd gwasanaethau i gyflawnwyr yn cael eu darparu gan sefydliadau gwahanol (neu o leiaf gan ran wahanol o sefydliad) i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau i oroeswyr.

I ategu'r Safon Parch ar gyfer ymyriadau i gyflawnwyr cam-drin domestig (rhaglenni unigol a grŵp) a'r achrediad a ddarperir gan Banel Achredu a Chyngor y Gwasanaethau Cywirol, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati ar y cyd â

phartneriaid i ddatblygu safonau ar gyfer gwasanaethau arbenigol i gyflawnwyr VAWSDASV, sy'n gweithio gyda'r rheini sydd wedi cyflawni unrhyw droseddau VAWSDASV posibl. Bwriad y safonau hyn yw llywio penderfyniadau comisiynwyr wrth iddynt nodi'r gwasanaethau sy'n debygol o ddarparu arfer diogel ac effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflawnwyr VAWSDASV. Ceir dolen i'r safonau isod:

https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181206-vawda-perpetrator-service-standards-cy.pdf

## 2.9 Egwyddorion comisiynu

Yr egwyddorion craidd ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yw:

- dealltwriaeth o VAWDASV fel problem ryweddol. Dylai gydnabod yr hawl ddynol i fyw'n rhydd o gamdriniaeth a thrais fel un o'r egwyddorion sylfaenol wrth gomisiynu gwasanaethau atal, amddiffyn a chymorth;
- ymrwymiad i ddarparu mynediad cyfartal i bob goroeswr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, at wasanaethau holistaidd, rhywedd-ymatebol o ansawdd uchel ar draws Cymru, sy'n seiliedig ar angen a chryfderau a chanddynt adnoddau priodol;
- ymrwymiad i ymgysylltu â goroeswyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn llywio dadansoddiad o anghenion, dyluniad gwasanaethau ac ymatebion system gyfan;
- dealltwriaeth o arbenigedd y sector VAWDASV arbenigol er mwyn llywio dadansoddiad o anghenion, dyluniad gwasanaethau ac ymatebion system gyfan;
- ymrwymiad i hawliau plant a chydnabod anghenion penodol plant a phobl ifanc sy'n profi neu sy'n dyst i VAWDASV. Hefyd, cydnabyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc o ran atal VAWDASV rhag digwydd iddynt neu effeithio arnynt yn y dyfodol;
- ymrwymiad i bartneriaeth gydweithredol a chyfartal ar draws asiantaethau er mwyn sicrhau buddsoddiad effeithiol mewn ymatebion i VAWDASV a galluogi llwybrau cymorth integredig sy'n hyrwyddo gweithredu ataliol ac ymyrryd yn gynharach;
- dylai comisiynu fod yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylid troi'r un goroeswr i ffwrdd o wasanaethau cymorth hanfodol a ddarperir gan lochesau, canolfannau cymorth treisio, unedau FGM a phriodi dan orfod, neu ymyriadau a gwasanaethau allweddol eraill. Dylai'r cymorth hwn fod yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigol y goroeswyr, yr adeg y bo'i angen arnynt, a dylai fod yn weddol agos at le maent yn byw. Dylai gynnwys gwell mynediad at lwybrau cymorth integredig er mwyn diwallu anghenion goroeswyr sy'n profi anfanteision lluosog;
- ni ddylai'r gwaith comisiynu gael ei wneud mewn 'seilos' – mae'n fater hefyd o ddarpariaeth brif ffrwd a chysylltiadau â gwasanaethau iechyd ac addysg, y gwasanaeth prawf, yr heddlu etc;
- lle mae gwasanaethau da eisoes yn cael eu darparu, yn unol â safonau cydnabyddedig, dylai comisiynwyr ystyried sut orau i hwyluso parhad y gwasanaethau hyn i'r goroeswyr sy'n eu defnyddio, ac ystyried goblygiadau tendro o ran adnoddau fel bod comisiynu'n digwydd mewn ffordd gymesur;
- mae angen i'r broses gomisiynu gydnabod a gwerthfawrogi profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth staff gwasanaethau arbenigol a hwyluso eu cyfraniad drwy gynllun cyflawni partneriaeth cytunedig ar gyfer datblygu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol nad ydynt yn eu hariannu. Dylai hyn gynnwys gwneud

defnydd rheolaidd o gydgynhyrchu wrth asesu anghenion, mapio adnoddau a dylunio ac adolygu gwasanaethau;
- dylai comisiynu sicrhau bod gwasanaethau hanfodol a chostau rheoli a gorbenion yn cael eu cwrdd drwy fodel adennill costau llawn, o gofio mai pur anaml y bydd llawer o gyllidwyr elusennol yn talu am gostau rheoli a gorbenion.

Yn ogystal â gwasanaethau VAWDASV arbenigol lleol, bydd swyddogaethau comisiynu eraill hefyd fel camddefnyddio sylweddau, tai, iechyd meddwl, gwaith gyda chyflawnwyr, a phlant a phobl ifanc, lle bydd arferion da ar gael. Bydd hyn yn gyfle i rannu data'n briodol ac i chwilio am ffyrdd o gyflwyno comisiynu ar y cyd ar gyfer gwahanol anghenion thematig er mwyn darparu gwasanaethau integredig.

## 2.10 Comisiynu drwy gaffael a chyllid grant

**Caffael**
Gallai comisiynu gael ei ariannu drwy gyllid grant neu drwy gaffael. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) yn diffinio caffael fel:
"*Y broses lle mae sefydliadau'n cwrdd â'u hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian ar sail oes gyfan gan greu budd nid yn unig i'r sefydliad ond hefyd i gymdeithas ac i'r economi gan leihau difrod i'r amgylchedd ar yr un pryd*". [1]

Fel y mae'r diffiniad yn ei awgrymu, gall caffael gynnwys ystod o weithgareddau a gyflawnir gyda, a thros, bobl y mae angen gwasanaethau VAWDASV arnynt. Er enghraifft, tendro a dyfarnu contract neu gytundeb lefel gwasanaeth i ddarparwr er mwyn darparu gwasanaeth penodol, a monitro llwyddiant y gwasanaeth hwnnw. Mae angen eu cyflawni yng nghyd-destun fframwaith comisiynu cyffredinol os ydynt am sicrhau gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n diwallu anghenion y boblogaeth y mae'r awdurdod perthnasol yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r eirfa yn Atodiad 1 yn rhoi diffiniadau pellach ar gyfer tasgau cysylltiedig fel trefniadau pwrcasu, contractio a chontractau perthynol.

**Sicrhau bod gweithgareddau caffael yn digwydd yn unol ag arferion gorau**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Datganiad Polisi Caffael Cymru sy'n nodi'r arferion caffael gorau a'r camau penodol sy'n ofynnol bellach i bob corff sector cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd. Dylai comisiynwyr rhanbarthol wneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau ac yn eu mabwysiadu'n llawn. Mae'r canllawiau ar gael drwy'r Canllaw Cynllunio Caffael sydd ar y we yn:

http://prp.wales.gov.uk/

Bydd cydymffurfio â'r canllawiau hyn yn helpu i sicrhau y glynir wrth Gyfarwyddebau Caffael yr UE (a droswyd yn gyfraith yn y DU ar ffurf Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015). Bydd y canllawiau hyn yn helpu i wneud penderfyniadau caffael ar sail ansawdd/cost/risg ac ystyried yr effaith fwy hirdymor. Er nad yw'r Canllaw Cynllunio Caffael yn cynnwys cyngor caffael penodol ar gyfer gofal cymdeithasol,

[1] Tasglu Caffael Cynaliadwy (2006)

mae’r egwyddorion perthnasol wedi hymgorffori yn y cyngor cyffredinol ar draws y wefan.

Gall y broses o gyflwyno cynnig ar y cyd ddilyn sawl ffurf wahanol, ac mae'n galluogi cwmnïau i gyfuno eu hadnoddau i gynyddu eu capasiti neu eu cwmpas cyfunol er mwyn cystadlu am gontractau a fyddai, fel arall, wedi bod y tu hwnt i’w cyrraedd. Gyda chynllunio priodol gan brynwyr a chyflenwyr, gall consortia fod mewn sefyllfa dda i ddarparu atebion arloesol a gwasanaethau ymatebol.

I gefnogi hyn, a thrwy weithio ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau manwl ar gyflwyno cynigion ar y cyd. Gellir gweld y canllawiau hyn drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://gov.wales/topics/improvingservices/bettervfm/publications/jointbidding/?skip=1&lang=cy

**Cyllid grant**
Mae cyllid grant yn ddull ariannu pwysig ochr yn ochr ag opsiynau caffael. Dylai comisiynwyr gofio y gallai sefydliadau llai a/neu fwy arbenigol fod yn darparu gwasanaethau rhagorol, ond nad oes ganddynt o bosibl y seilwaith i dendro’n gystadleuol am gontractau mawr.

Gweler adran 5.2, sef ‘*Considering Different Procurement and Commissioning Models*’ ac adran 6.4 '*Ensuring Fairness and Market Diversity*' ym Mhecyn Cymorth Sefydliad Lloyds.

# Rhan 3 - Comisiynu rhanbarthol

## 3.1 Pwrpas a nodau strategol y rhanbarth

Mae creu persbectif rhanbarthol cyffredin yn gosod y sylfeini ar gyfer strategaeth gomisiynu effeithiol. Bydd angen i'r bartneriaeth gomisiynu ranbarthol ddiffinio ac egluro'r hyn y dylid ei gynnwys yn y strategaeth gomisiynu ranbarthol, diffinio ffiniau'r boblogaeth a wasanaethir gan wasanaethau VAWDASV a nodi pa asiantaethau partner sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo'r strategaeth.

## 3.2 Aelodaeth, rolau a gwerthoedd y rhanbarth

Bydd angen nodi rolau a chyfrifoldebau amrywiol yr asiantaethau a'r unigolion yn y rhanbarth. Dylai hyn gynnwys yr awdurdodau perthnasol a restrir o dan y Ddeddf (awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Awdurdodau Tân ac Achub).

Mae rôl wahanol ond allweddol gan asiantaethau eraill nad oes ganddynt o bosibl gyfrifoldeb statudol am gomisiynu gwasanaethau VAWDASV, sef helpu comisiynwyr i wneud y penderfyniadau comisiynu gorau ar gyfer eu cymuned.

Dylai comisiynwyr rhanbarthol gydnabod pwysigrwydd gweithio â'r holl randdeiliaid yn ystod y broses gomisiynu, megis yr heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gwasanaethau addysg, darparwyr tai, HMPPS, y trydydd sector, gwasanaethau VAWDASV arbenigol, goroeswyr, defnyddwyr gwasanaeth, dioddefwyr ac asiantaethau troseddu a chyfiawnder eraill nad ydynt wedi'u datganoli.

Rhaid cynnwys cyrff trydydd sector yn glir drwy gydol y broses gomisiynu er mwyn iddynt allu cyfrannu'n adeiladol at y gwaith o ddylunio, darparu ac adolygu rhaglenni a chanolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaethau.

Bydd angen i gyrff trydydd sector fod yn glir ynghylch pwy y maent yn eu cynrychioli a bod yn atebol am gynrychioli eu barn, gan ystyried anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig fel y disgrifir yn y ddeddfwriaeth a nodir yn Atodiad 1, gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau i gyflawnwyr.

Mae'n hollbwysig bod darparwyr gwasanaethau arbenigol yn gweithio gyda goroeswyr oherwydd gallai eu profiad uniongyrchol o ddefnyddio gwasanaethau gynnig dealltwriaeth unigryw er mwyn llywio a datblygu gwasanaethau.

Mae 'cynnwys' yn rhan bwysig o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n gofyn bod cyrff cyhoeddus yn sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar y bobl sy'n byw yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae sawl ffordd o 'gynnwys', ac felly dylai comisiynwyr rhanbarthol weithio i geisio chwalu'r rhwystrau rhwng y rheini sy'n darparu gwasanaethau a'r bobl sy'n eu defnyddio.

## 3.3 Llywodraethu

I sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir ar gyfer rhanddeiliaid wedi'u diffinio a'u cyflawni, rhaid cael trefniadau llywodraethu da. Bydd y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol pob rhanbarth.

Bydd system lywodraethu glir ar gyfer gwneud penderfyniadau'n sicrhau bod cyrff sy'n gyfreithiol atebol am eu penderfyniadau'n gallu cadw'r atebolrwydd hwn. Felly, mae angen i'r systemau llywodraethu nodi'r disgwyliadau ar gyfer y rolau a'r cyfrifoldebau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r broses gomisiynu strategol. Dylid parchu atebolrwydd y sefydliadau unigol, a diffinio'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth gyllid yn gwbl glir. Bydd angen nodi'r unigolion, y grwpiau a'r partneriaethau sy'n rheoli, yn darparu, yn cefnogi ac yn gyfrifol am yr amryw o weithgareddau, tasgau a chamau yn y broses strategol o gomisiynu gwasanaethau VAWDASV.

Mae trefniadau llywodraethu da yn cynnwys y canlynol:

- **dogfennau ffurfiol** fel Memorandwm Dealltwriaeth (MoU)neu Gytundeb Cydweithredu, sy'n amlinellu'r trefniadau llywodraethu. Byddant yn disgrifio'r gweithdrefnau gweithredol, nodau a rolau allweddol pob un o'r sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth gomisiynu ranbarthol ac unrhyw is-grwpiau.

- **trefniadau rheolaeth ariannol –** rhaid i bob rhanbarth argymell un awdurdod lleol i weithredu fel y corff atebol, hynny yw "y banciwr", sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol a chyfreithiol cyffredinol am unrhyw gyllid a weinyddir yn rhanbarthol.

**Trefniadau ar gyfer gwrthdaro buddiannau a datrys anghydfodau**

- **Rheoli risg –** bydd angen i bartneriaethau comisiynu rhanbarthol gytuno ar ddull cyffredin o reoli risg a chynnal diwydrwydd dyladwy.

- **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)** – mae'r cytundeb hwn yn elfen allweddol o'r Prosiect Rhannu Gwybodaeth Bersonol gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau sector preifat a thrydydd sector priodol, yn rhannu gwybodaeth bersonol am unigolion yn gyfreithlon, yn diogel ac yn hyderus. Mae'r fframwaith yn hwyluso hyn drwy nodi dulliau a'r gofynion cytunedig ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng darparwyr gwasanaethau. Mae'r holl awdurdodau lleol, byrddau/ymddiriedolaethau iechyd, heddluoedd, awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a nifer fawr o elusennau a chyrff gwirfoddol, wedi ymrwymo i'r Cytundeb hwn. Mae sefydliadau eraill fel ysgolion, meddygfeydd, cymdeithasau tai a rhai sefydliadau o'r sector preifat hefyd wedi arwyddo'r Cytundeb.

  Mae angen i gomisiynwyr rhanbarthol ystyried y fframwaith WASPI ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch a llesiant pobl yng Nghymru.

# Rhan 4 - Y cylch comisiynu

## 4.1 Dull comisiynu ar sail canlyniadau

Mae Llywodraeth Cymru’n disgwyl i'r gwaith comisiynu fod yn seiliedig ar Ddull Comisiynu Ar Sail Canlyniadau. Mae’r dull hwn yn symud y ffocws o weithgareddau i ganlyniadau, o sut y mae rhaglen yn gweithredu i’r daioni y mae’n ei wneud.

“Rydym i gyd yn deall bod y dyfodol yn gofyn i ni weithio’n wahanol, ond yn anad dim mae'n gofyn i ni weithio gyda’n gilydd, o fewn y sector a gyda'n partneriaid, i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig, ymatebol o ansawdd uchel ochr yn ochr â’r bobl sydd eu hangen arnynt."[2]

Rhaid i strategaethau comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau fod yn sail i'r chwe amcan a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer VAWDASV ac adlewyrchu'r Dangosyddion Cenedlaethol pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Wrth ddatblygu strategaeth gomisiynu ar sail canlyniadau, mae’n bwysig bod defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a chomisiynwyr yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o’r canlyniadau sydd mewn golwg ganddynt.

Dylai’r canlyniadau adlewyrchu sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a dylent gyfeirio at y dangosyddion llesiant cenedlaethol a chydymffurfio â’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, y cyfeirir ati fel y 'Pum Ffordd o Weithio'. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol wedi cydgynhyrchu fframwaith er mwyn helpu'r rheini sy’n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus i gymhwyso ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddylunio gwasanaethau:

http://gov.wales/topics/improvingservices/future-generations-framework-for-service-design/?skip=1&lang=cy

## 4.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau

Mae Llywodraeth Cymru’n ymrwymedig i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynnwys wrth gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau VAWDASV. Disgwylir i bartneriaethau comisiynu rhanbarthol sicrhau bod amrywiaeth o ddulliau ar gael i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn eu gwaith. Mater i bob rhanbarth fydd penderfynu ar yr union ddulliau ond gallai fod drwy gynrychiolaeth uniongyrchol ar y bartneriaeth ranbarthol neu drwy drefniadau adrodd gyda grwpiau defnyddwyr lleol sefydledig.

[2] Mark Drakeford, Llywodraeth Cymru

## 4.3 Ystyriaethau ar gyfer y cylch comisiynu

Mae'r Pecyn Cymorth gan Sefydliad Lloyds yn disgrifio'r pedwar cam yn y Cylch Comisiynu a'r dulliau i'w dilyn ym mhob cam. Mae'r adran hon yn disgrifio ystyriaethau pellach y dylai partneriaethau comisiynu rhanbarthol eu hystyried drwy gydol y cylch.

## 4.4 Defnyddio data

Dylid defnyddio data o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys asesiadau seiliedig ar gymunedau fel yr asesiadau llesiant lleol, asesiadau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, asesiadau diogelwch cymunedol strategol a gwasanaethau rheng flaen, i ddadansoddi anghenion. Bydd hyn yn osgoi unrhyw ddyblygu diangen drwy sicrhau y defnyddir data sy'n bodoli eisoes, lle mae ar gael.

Gallai comisiynwyr rhanbarthol ganfod, ar ôl cyflawni'r dadansoddiad, nad oes ganddynt yr holl wybodaeth sydd ar gael i gomisiynu'n effeithiol ar sail canlyniadau. Efallai y bydd angen i ran o broses gomisiynu'r rhanbarth ganolbwyntio felly ar gynhyrchu data, er enghraifft drwy ofyn i ddarparwyr gwasanaethau arbenigol gasglu gwybodaeth fwy ystyrlon er mwyn gwneud penderfyniadau comisiynu gwell.

## 4.5 Dadansoddi'r bylchau

Bydd angen i'r wybodaeth a gesglir drwy asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth a'r gwariant presennol gael ei dwyn ynghyd er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, a'i defnyddio fel sail i ddatblygu amcanion strategol a'r strategaeth gomisiynu ranbarthol.

Wrth wneud dadansoddiad trylwyr o'r bylchau, dylai bob rhanbarth ystyried y canlynol:

- a oes unrhyw fylchau mewn mathau penodol o wasanaethau?
- a oes diffyg gwasanaethau mewn cymuned benodol?
- a yw rhai o'r gwasanaethau'n wan neu o ansawdd gwael?
- a yw rhai o'r gwasanaethau mewn mannau amhriodol neu anhygyrch?
- a oes darpariaeth ormodol neu ddyblygu yn achos rhai gwasanaethau?
- a oes darpariaeth ormodol neu ddyblygu gwasanaethau mewn cymunedau penodol?
- a yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau penodol yn gynaliadwy?

Ar ôl nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth, bydd angen cyflawni asesiad risg i fesur effaith y bylchau hyn ar y gallu i gyflawni canlyniadau cyffredinol a nodau strategol y rhanbarth.

## 4.6 Gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog lle gall pobl fyw eu bywydau drwy'r Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith. Lluniwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan roi dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae'r rhain yn disgrifio cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau

dwyieithog a datblygu polisi a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

http://gov.wales/about/welshlanguagestandards/?skip=1&lang=cy

Rhaid i gyrff comisiynu sicrhau bod darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r broses gaffael a'r asesiad o anghenion drwy nodi'n glir pa wasanaethau sydd eu hangen yn Gymraeg (neu'n ddwyieithog), yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg sy'n berthnasol iddynt fel sefydliadau. Gallai'r Safonau sy'n berthnasol amrywio o un sefydliad i'r llall. Efallai y bydd angen i gorff comisiynu gynnal proses dendro ddwyieithog os yw'n bodloni amodau penodol a ddisgrifir yn Safonau'r Gymraeg.

Ceir rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn:

http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Dyletswyddau%20iaith/Pages/Beth-yw-safonau.aspx

## 4.7 Cynhyrchu'r strategaeth gomisiynu

Rhaid i gomisiynwyr rhanbarthol ymgynghori â'r holl randdeiliaid ar y strategaeth ddrafft a sicrhau cytundeb ffurfiol gan aelodau'r Bartneriaeth Comisiynu Ranbarthol cyn gofyn am gytundeb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru drwy broses llywodraethu mewnol gytunedig Llywodraeth Cymru. Bydd angen i'r awdurdodau cyfrifol ei chymeradwyo o dan y Ddeddfwriaeth yn Rhan 2 drwy eu strwythurau gwneud penderfyniadau, a rhaid cael cytundeb ffurfiol yr asiantaethau sy'n ymrwymo adnoddau i'r strategaeth drwy eu prosesau cyllidebu.

Unwaith y bydd y camau hyn wedi eu cymryd a darparwyr wedi'u hysbysu o'r bwriadau comisiynu ar gyfer y dyfodol, gellir cyhoeddi'r ddogfen.

## 4.8 Sefydliadau trydydd sector a chymunedol

Mae 'Cynllun y Trydydd Sector' Llywodraeth Cymru'n nodi fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector yng Nghymru a'i threfniadau ariannu, gan gynnwys comisiynu, grantiau a chaffael. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gomisiynwyr ystyried y canllawiau hyn wrth weithio gyda'r trydydd sector ac, yn benodol, sicrhau bod trafodaethau cynnar yn digwydd gyda sefydliadau trydydd sector gyda thystiolaeth eu bod wedi cyfranogi yn y broses gomisiynu lle bo'n briodol.

Rhaid i drefniadau comisiynu sicrhau nad yw sefydliadau trydydd sector llai ar draws Cymru o dan anfantais oherwydd y broses dendro a'r disgwyliadau ohonynt. Bydd glynu wrth yr egwyddorion ym Mholisi Caffael Cymru, a ddisgrifir yn adran 2.4 ac Atodiad 2, yn osgoi hyn. Dylai trefniadau comisiynu hefyd ddarparu ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig ac anghenion cymhleth.

Wrth gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau trydydd sector, dylai comisiynwyr rhanbarthol ganiatáu ceisiadau dilys ar gyfer ariannu costau a gorbenion sefydliad ar

ben y costau uniongyrchol o ddarparu'r gwasanaethau; ac eithrio lle mae cyllid craidd ar wahân yn cael ei roi i'r sefydliad trydydd sector i gwrdd â'r costau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu rhaglenni grant, yn ymrwymo lefelau o gyllid sy'n adlewyrchu ac yn seiliedig ar egwyddorion Adennill Costau Llawn. Gweler y Cod Ymarfer ar gyfer y Trydydd Sector.
https://www.wcva.org.uk/media/818416/140130-third-sector-scheme-cy.pdf

## 4.9 Taro cydbwysedd o ran gwasanaethau

Mae'n bwysig i gomisiynwyr rhanbarthol ddylanwadu ar y farchnad o ddydd i ddydd mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion y grwpiau sy'n defnyddio eu gwasanaethau ac yn helpu i gyflawni nodau'r strategaeth gomisiynu. Un ffordd o nodi'n glir sut y bwriedir cyflawni hyn yw drwy gwblhau datganiad ar sail y strategaeth sy'n egluro sut y bwriedir ymdrin â'r canlynol:

- **y cymysgedd o ddarparwyr** i ddiwallu'r ystod o anghenion a nodwyd yn yr asesiad o anghenion, a bod y gwasanaethau'n hyfyw a chynaliadwy yn yr hirdymor.
- **yr elfen o gystadleuaeth** – i sicrhau gwerth am arian.
- **yr elfen o ddewis** – yn ddelfrydol, dylai fod gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis o wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion orau.
- **cymhellion i ddarparwyr** – ymuno â'r farchnad neu gynnig gwasanaethau newydd.
- **cyd-gomisiynu** – ar draws rhanbarth a/neu fwy nag un rhanbarth.

Gallai comisiynwyr rhanbarthol ystyried y gweithgareddau canlynol:

- **ailwampio'r gwasanaethau presennol** – faint o gapasiti neu awydd sydd gan ddarparwyr i ddiwygio eu gwasanaethau, ac a fyddai modd gweithredu'r newidiadau angenrheidiol yn llwyddiannus.
- **buddsoddi ymhellach yn y gwasanaethau presennol** – gan sicrhau bod budd ychwanegol yn debygol o ddeillio o fuddsoddiad pellach.
- **datgomisiynu gwasanaethau** – yn enwedig lle nad yw gwasanaeth presennol yn diwallu anghenion y boblogaeth, ac mae'n annhebygol o allu gwneud hynny. Dylid ystyried yn ofalus gyda'r holl benderfynwyr perthnasol a ddylid cytuno i amcanion datgomisiynu, gan ddatblygu strategaethau ymadael sy'n lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth .
- **comisiynu gwasanaethau newydd** – er enghraifft adnabod darparwyr VAWDASV eraill nad ydynt eisoes yn gweithio yn yr ardal a pha gyfleoedd allai fod ar gael iddynt wneud hynny, neu gymell darparwyr lleol i ddatblygu gwasanaethau newydd.

## 4.10 Comisiynu gwasanaethau ar sail canlyniadau

Mae comisiynu ar sail canlyniadau'n gofyn am fanylebau tra gwahanol oherwydd bydd comisiynwyr rhanbarthol yn mesur canlyniad y gwaith yn hytrach na'r gweithgareddau. Bydd canolbwyntio ar y 'nod' yn hytrach na'r 'modd' yn helpu darparwyr gwasanaeth i ystyried eu heffaith a diffinio llwyddiant yn ehangach. Mae'n newid diwylliant, sy'n sicr yn heriol, ond dylai wella ansawdd gwasanaethau drwy ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y maent yn ei wneud i'w defnyddwyr.

Rhaid i'r cynllun comisiynu nodi beth yw'r canlyniadau a pha wasanaethau/ prosiectau sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu'r anghenion hyn. Dylai comisiynwyr rhanbarthol ddatblygu neu adolygu manyleb gwasanaeth ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y strategaeth gomisiynu, ac ystyried y canlyniadau y maent eisiau eu cyflawni wrth ddarparu'r gwasanaeth. Bydd angen i bob un o'r manylebau gwasanaeth cytunedig hyn:

- adlewyrchu'r anghenion a nodwyd;
- ystyried materion hygyrchedd, iaith, hil, oed a rhywedd ynghyd â nodweddion gwarchodedig eraill ac anghenion cymhleth;
- cyflawni amcanion y strategaeth gomisiynu;
- cynnwys ystod safonedig o fesurau ar gyfer allbynnau a chanlyniadau;
- diffinio'r canlyniadau;
- adlewyrchu'r arferion gorau cenedlaethol a/neu werth ychwanegol;
- nodi'r gwerthoedd ac egwyddorion lleol cytunedig;
- nodi'r safonau cenedlaethol/targedau cysylltiedig;
- cydymffurfio â chanllawiau a safonau gwasanaeth lleol neu genedlaethol; a
- nodi beth yw'r disgwyliadau o ran lefelau staffio, hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad.

Rhaid i'r holl drefniadau gwasanaeth a gynigir fod yn glir a rhaid bod yr holl gomisiynwyr rhanbarthol wedi cytuno arnynt.

Ar ôl cytuno arnynt, rhaid hefyd cynnwys cyfnod trosglwyddo priodol i sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar wasanaethau.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddull gweithredu Budd i'r Gymuned ar wefan y Canllaw Cynllunio Caffael yn:
http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/140815communitybenefitreportwelshwebupdated.pdf

Mae'r templed Asesu Risgiau Cynaliadwy ar gael ar wefan y Canllaw Cynllunio Caffael drwy'r ddolen ganlynol:
http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/170106sraservicesv5.1june2016.xls

## 4.11 Egwyddorion cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu'n defnyddio amser, sgiliau, profiad ac arbenigedd defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a rhwydweithiau. Mae'n seiliedig ar chwe egwyddor:

1. Adnabod pobl fel asedau: trin pobl fel partneriaid cyfartal yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau.
2. Adeiladu ar alluoedd pobl: yn hytrach na dechrau gydag anghenion pobl, mae gwasanaethau a gydgynhyrchwyd yn dechrau gyda galluoedd pobl ac yn chwilio am gyfleoedd i'w helpu i ffynnu.
3. Meithrin perthnasoedd cilyddol a chydfuddiol: mae cydgynhyrchu'n ymwneud â chreu partneriaeth gilyddol a chydfuddiol, lle daw gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr y gwasanaethau at ei gilydd mewn perthynas rhyngddibynnol gan gydnabod bod ganddynt i gyd rôl werthfawr i'w chwarae o ran creu gwasanaethau effeithiol a gwella canlyniadau.

4. Cryfhau rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid: y ffordd orau o drosglwyddo gwybodaeth a chefnogi newid yw drwy defnyddio rhwydweithiau personol a rhwydweithiau cymheiriaid ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol.
5. Chwalu rhwystrau: cau’r bwlch rhwng gweithwyr proffesiynol a'r rheini sy’n derbyn gwasanaethau, a rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr gwasanaethau, drwy ailwampio’r ffordd y caiff gwasanaethau eu datblygu a’u darparu.
6. Hwyluso'n hytrach na darparu: helpu gweithwyr proffesiynol i hwyluso a sbarduno newid yn hytrach na darparu gwasanaethau.

Mae’r tabl isod yn dangos sut y gall cydgynhyrchu newid y dull comisiynu ym mhob un o’r tri **phrif** gam comisiynu:

| Cam comisiynu | Dull traddodiadol | Dull yn sgil cydgynhyrchu |
|---|---|---|
| Cam dadansoddi | Proses o “asesu anghenion” sy’n canolbwyntio ar setiau data cenedlaethol a lleol. | • Mapio asedau i nodi’r ddarpariaeth anffurfiol, yr asedau a’r adnoddau.<br>• Cynnal grwpiau ffocws â darparwyr gwasanaethau i weld beth sy’n gweithio’n dda neu beidio.<br>• Cyfweliadau anffurfiol a lled-ffurfiol gyda defnyddwyr gwasanaethau a goroeswyr VAWDASV.<br>• Gweithdai gwerthfawrogol gyda defnyddwyr gwasanaethau a goroeswyr VAWDASV i greu darlun cyfoethog o’u hanghenion a'u dyheadau.<br>• Gwaith ymgysylltu sylweddol gyda defnyddwyr gwasanaethau a goroeswyr VAWDASV. |
| Cam cynllunio | Comisiynwyr yn cytuno ar y canlyniadau/allbynnau ac yn eu blaenoriaethu.<br><br>Y contract yn cael ei roi allan i dendr a gweithdy'n cael ei gynnal ar y porth tendro.<br><br>Cyfathrebu rhwng y comisiynwyr a’r darparwyr yn dod i ben hyd nes i’r contract gael ei ddyfarnu. | • Datblygu fframwaith canlyniadau gyda defnyddwyr gwasanaethau a goroeswyr VAWDASV a darparwyr, sy'n dangos yn glir y canlyniadau y disgwylir i bob gwasanaeth eu cyflawni.<br>• Darparwyr yn derbyn cymorth drwy gydol y broses dendro drwy weithdai meithrin gallu a/neu sesiynau galw heibio.<br>• Y bobl y disgwylir iddynt elwa ar y gwasanaeth yn helpu i gyfweld a dewis darparwyr. |
| Cam gwneud | Dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu pennu gan gomisiynwyr. | Dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu pennu gan gomisiynwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | Manylebau gwasanaeth yn cael eu negodi a'u cytuno gan gomisiynwyr a darparwyr. | Manylebau gwasanaeth yn cael eu negodi a'u cytuno gan gomisiynwyr a darparwyr. |
| Cam adolygu | Bydd darparwyr yn cael eu monitro drwy fframwaith rheoli contractau, a fydd yn cynnwys mewnbynnu data ar allbynnau mewn taenlen er mwyn i'r comisiynwyr allu eu dadansoddi.<br><br>Yn achlysurol, bydd comisiynwyr yn ymweld â darparwyr ar y safle i adolygu eu perfformiad. | Darparwyr yn cael eu gwerthuso yn erbyn y fframwaith canlyniadau ac yn adrodd yn ôl i'r comisiynwyr ar ystod o ddangosyddion goddrychol a gwrthrychol.<br><br>Bydd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn chwarae rôl allweddol yn y broses o adolygu perfformiad y darparwyr. |

## 4.12 Monitro a gwerthuso
Rhaid nodi a chynnwys dulliau gwerthuso ffurfiol yn nyluniad gwasanaeth ac yn y ffordd y caiff ei ddarparu o'r cychwyn cyntaf. Mae angen i ddarparwyr fod yn glir ynghylch pa wybodaeth i'w darparu ar gyfer y gwaith monitro parhaus a'r gwerthuso. Bydd hyn yn ei dro'n bwydo i'r broses o ddatblygu, dylunio a chomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol, ac i'r Strategaeth ei hun.

## 4.13 Gwerthuso perfformiad
Mae'n rhaid i drefniadau contract neu grant gael eu hategu gan fesurau a threfniadau rheoli perfformiad cadarn. Bydd hyn yn golygu modd monitro a gwerthuso er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaethau a'r gweithgareddau:
- yn briodol ac wedi'u cysoni'n ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth;
- yn parhau i gwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;
- o ansawdd da ac yn cynnig gwerth da am arian;
- yn cyflwyno risg sylweddol o fethu; ac
- yn perfformio yn erbyn y fanyleb gytunedig.

Dylai'r gwaith gwerthuso gynnwys adborth gan ddarparwyr, defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol i farnu pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau.

Rhaid i gomisiynwyr rhanbarthol fesur effaith er mwyn asesu a yw defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar ddilyn y cylch comisiynu ai peidio.

Dylid casglu data ar weithgareddau, cost a pherfformiad drwy gydol y contract fel rhan o'r model comisiynu a chaffael. Dylai'r wybodaeth yma gyfrannu at y gwaith a wneir gan y comisiynwyr rhanbarthol.

## 4.14 Adolygu'r farchnad
Rhaid cynnal adolygiad o'r farchnad er mwyn cadarnhau:

- a yw'r farchnad wedi datblygu a newid dros amser a sut, a beth yw'r effaith bosibl er mwyn llywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol;
- gallu a chapsiti presennol y darparwyr gwasanaethau;
- a lwyddodd unrhyw gyllid grant interim i gyflawni'r amcan o ddatblygu'r farchnad; ac
- am ba hyd y bydd yr holl drefniadau darparu gwasanaeth ar waith, p'un ai'n seiliedig ar gontract neu grant, er mwyn caniatáu hyblygrwydd i addasu i newidiadau yn y farchnad.

Os yw grant interim wedi cyflawni ei amcan o ysgogi marchnad gyflenwi newydd, bydd yn bryd symud o arian grant i gaffael cystadleuol. Rhaid egluro'r newidiadau hyn yn iawn i'r darparwyr presennol ac i'r farchnad a chaniatáu digon o amser i gynllunio a newid y trefniadau'n iawn.

## 4.15 Sganio'r gorwel

Dylai partneriaethau comisiynu rhanbarthol fod yn effro o hyd i:

- newidiadau mewn deddfwriaeth ac i bolisi'r llywodraeth a'r effaith bosibl ar y gwasanaethau presennol;
- newidiadau i bolisi neu gyfeiriad yr UE ac effaith Brexit; a
- yr hyn y mae rhanbarthau ac asiantaethau partner eraill yn ei wneud, a newidiadau i arferion gorau, a'r effaith bosibl o ganlyniad;
- newidiadau i'r sefyllfa ariannu.

# Atodiad 1

## Deddfwriaeth, Polisïau a Strategaethau

Wrth ddatblygu'r strategaeth gomisiynu ranbarthol, dylai comisiynwyr rhanbarthol ystyried y canlynol. Mae rhai o'r darnau deddfwriaeth y cyfeiriwyd atynt yn gosod dyletswyddau uniongyrchol ar awdurdodau perthnasol neu gyrff cyhoeddus eraill.

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf VAWDASV)**

Diben y darpariaethau yn y Ddeddf yw sicrhau ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal y materion hyn, amddiffyn dioddefwyr a chefnogi'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan faterion o'r fath.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau perthnasol ar sut y dylai'r awdurdodau arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys eu rôl o ran comisiynu gwasanaethau i fodloni pob agwedd ar bwrpas y Ddeddf i atal VAWDASV ac amddiffyn a chefnogi goroeswyr VAWDASV.

http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
O dan y Ddeddf Llesiant, mae'n ofynnol i bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (adran 29 o'r Ddeddf).
Dyma aelodau pob bwrdd -
(a) yr awdurdod lleol;
(b) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
(c) yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal yng Nghymru lle mae rhan ohoni'n dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
(ch) Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy

**Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/enacted

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/legislation/rentingbill/?skip=1&lang=cy

**Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998**

Mae Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998 yn nodi dyletswyddau'r awdurdodau cyfrifol i fynd i'r afael â throseddu ac anrhefn yn eu hardaloedd. Mae adran 5 o Ddeddf 1998 yn diffinio'r 'awdurdodau cyfrifol' ym mhob ardal llywodraeth leol yng Nghymru fel:

- y cyngor ar gyfer yr ardal;
- pob prif swyddog yr heddlu lle mae unrhyw ran o'u hardal heddlu'n dod o fewn yr ardal;
- pob awdurdod tân ac achub lle mae unrhyw ran o'u hardal yn dod o fewn yr ardal;
- pob bwrdd iechyd lleol lle mae unrhyw ran o'u hardal yn dod o fewn yr ardal; a phob darparwr gwasanaethau prawf yn yr ardal.

Yr enw cyfunol ar awdurdodau cyfrifol mewn ardal llywodraeth leol yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, neu 'CSP'. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn cyflawni eu swyddogaethau statudol o dan eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB).

http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/37/contents

**Deddf Troseddau Rhywiol**
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/42/contents

**Deddf Troseddau Difrifol 2015**
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/9/contents/enacted

**Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (Deddf FGM)**
O dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, a ddiwygiwyd gan adrannau 70-75 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, mae'n drosedd i unrhyw berson (beth bynnag yw eu cenedligrwydd neu statws preswyl):

- gyflawni FGM yng Nghymru a Lloegr (adran 1 y Ddeddf)
- cynorthwyo benyw i gyflawni FGM arni ei hun yng Nghymru a Lloegr (adran 2 o'r Ddeddf)
- cynorthwyo (o Gymru neu Loegr) person nad yw'n dod o'r DU i gyflawni FGM y tu allan i'r DU ar ddinesydd neu breswylydd yn y DU (adran 3 o'r Ddeddf)

http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/31/enacted

**Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (Diwygiadau) 2012**
Mae'r ddeddf hon yn gwneud awdurdodau perthnasol yn gyfrifol am gyflawni Adolygiadau Dynladdiad Domestig.
Mae'n rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol a staff adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n delio gyda phlant, gofalwyr, oedolion agored i niwed a materion trais domestig ehangach.

https://www.gov.uk/government/publications/domestic-violence-crime-and-victims-amendment-act-2012

**Deddf Priodi dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007**
Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer amddiffyn unigolion rhag cael eu gorfodi i briodi yn groes i'w hewyllys rydd a llawn ac ar gyfer amddiffyn unigolion a orfodwyd i briodi'n groes i'w hewyllys; ac ar gyfer pwrpasau cysylltiedig.

http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2007/20/contents

**Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/30/contents/enacted

**Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (2011)**
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2011/13/contents/enacted

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau cysylltiedig yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau a monitro cynnydd ar bob un o'r amcanion. Mae Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn ategu gwaith Llywodraeth Cymru. Nod yr amcanion yw sicrhau bod gwasanaethau a chyflogaeth gyhoeddus yn deg, hygyrch ac ymatebol i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol. Ni ddylid trin pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn llai ffafriol.

https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents/enacted

**Deddf Hawliau Dynol 1998**
Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhestru'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol sydd gan bawb yn y DU.

http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/contents

**Deddf Iechyd a Diogelwch 1974**
http://www.hse.gov.uk/legislation/hswa.htm

**Cyfarwyddeb yr UE ar Hawliau Dioddefwyr**
http://ec.europa.eu/justice/criminal/victims/index_en.htm

**Cyfarwyddeb yr UE ar Gaffael**
https://www.gov.uk/guidance/transposing-eu-procurement-directives

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod**
Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod[3] (CEDAW) yw'r cytundeb rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb rhwng menywod a dynion ym mhob agwedd ar fywyd. Cyfeirir ato'n aml fel y 'mesur iawnderau menywod'. Cadarnhaodd y DU y Confensiwn ym 1986 gan ymrwymo i gyflawni cyfres o fesurau i ddod â phob math o wahaniaethu yn erbyn menywod i ben, gan gynnwys:

- ymgorffori'r egwyddor bod dynion a menywod yn gydradd yn eu system gyfreithiol gan ddiddymu pob cyfraith wahaniaethol a mabwysiadu cyfreithiau priodol yn gwahardd gwahaniaethu yn erbyn menywod;
- sefydlu tribiwnlysoedd a sefydliadau cyhoeddus eraill i sicrhau bod menywod yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol yn erbyn gwahaniaethu; a

[3] http://www.un.org/womenwatch/daw/cedaw/cedaw.htm

- sicrhau bod pob gweithred o wahaniaethu yn erbyn menywod gan bersonau, sefydliadau neu fusnesau’n cael eu dileu.

https://www.gov.uk/government/publications/convention-on-the-elimination-of-all-forms-of-discrimination-against-women-cedaw-articles

**CCUHP**
Ers 2004 mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) yn sail ar gyfer ei gwaith dros blant a phobl ifanc.
Mae nifer o strategaethau a fframweithiau eraill sy’n berthnasol i’r maes gwasanaeth hwn ac y dylai partneriaethau comisiynu rhanbarthol eu hystyried.

https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_PRESS200910web.pdf

**Symud Cymru Ymlaen**
http://llyw.cymru/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

**Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol**
Mae’r strategaeth hon yn cymryd y prif ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor, ac wedyn yn mynd ati i weld sut y maent yn cyd-fynd â gwaith y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

http://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

**Y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - VAWDASV**
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cy.pdf

**Y Gymraeg**
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1993/38/contents#
http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted

**Y Strategaeth i Ddod â Thrais yn erbyn Menywod a Merched i Ben 2016-2020**
Mae Strategaeth Llywodraeth y DU ar Ddod â Thrais yn erbyn Menywod a Merched i Ben 2016-2020 yn adeiladu ar nifer o fesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU gan gynnwys cyflwyno trosedd newydd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n cymell, y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, Gorchmynion Amddiffyn Rhag Trais Domestig o dan Ddeddf Troseddu a Diogelwch 2010, y Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS), Gorchmynion Amddiffyn Rhag FGM o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 a mewnosod dyletswydd orfodol i adrodd am FGM yn Neddf 2003 gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, ynghyd â chryfhau mesurau i reoli pobl sy’n cyflawni troseddau rhywiol neu'r rheini sy’n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/522166/VAWG_Strategy_FINAL_PUBLICATION_MASTER_vRB.PDF

**Y Bil Trais a Cham-drin Domestig**
Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno Bill Trais a Cham-drin Domestig drafft. Bydd yn:

- sefydlu Comisiynydd Trais a Cham-drin Domestig;
- diffinio cam-drin domestig a chyflwyno gorchmynion amddiffyn cryfach;
- caniatáu dedfrydau mwy llym lle mae'r ymddygiad camdriniol yn cynnwys plentyn;
- amddiffyn dioddefwyr trais a cham-drin domestig;
- creu cyfundrefn sifil newydd o orchmynion atal ac amddiffyn rhag cam-drin domestig; a
- lle mae'r ymddygiad camdriniol yn cynnwys plentyn, galluogi llysoedd i roi dedfrydau sy'n adlewyrchu effaith andwyol gydol oes y cam-drin hwnnw.

**Y Diwydiant Rhyw, Ecsbloetio a Masnachu mewn Pobl**
Y flaenoriaeth yn y cyd-destun hwn yw amddiffyn y cyhoedd; gall pobl yn y diwydiant puteindra fod yn arbennig o agored i drais rhywiol neu drais treisgar arall, yn wir gallent fod yn ddioddefwyr ecsbloetio plant yn rhywiol neu gaethwasiaeth fodern.

# Geirfa

**Cam-drin** (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

**Cydweithio:** Mae'r term "cydweithio" yn cyfeirio at ymateb rhyngasiantaethol cydgysylltiedig trwy strwythur ffurfiol, neu fforymau, lle mae'r prif ffocws ar ddiogelu'r dioddefwr, lleihau erledigaeth eilaidd a dwyn cyflawnwyr i gyfrif.
Dylai'r fforymau:
(a) fabwysiadu polisïau a gweithdrefnau cyson, ar y cyd, gan gynnwys asesiad risg a chynllun rheoli risg a diogelwch cytunedig, sy'n cydgysylltu ac yn safoni'r ymyriadau proffesiynol i bawb sydd mewn perygl ac sy'n lleihau'r risg o niwed;
(b) rhannu gwybodaeth i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant dioddefwyr/goroeswyr – oedolion a'u plant;
(c) cydweithio i leihau erledigaeth eilaidd;
(d) gwella atebolrwydd asiantaethau;
(e) gwella cymorth, gan gynnwys hyfforddiant, i'r holl staff sy'n gysylltiedig ag achosion o gam-drin domestig; a
(f) phenderfynu a yw'r cyflawnwr honedig yn achosi risg sylweddol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol.

**Cam-drin domestig** (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): Ystyr cam-drin yw lle mae'r dioddefwr yn neu wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr. Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddiben y diffiniad o "gam-drin domestig" os yw'n cyd-fynd â'r diffiniad yn adran 21(2) neu (3) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod**: gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (p. 31).

**Trais ar sail rhywedd** (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):
(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;
(c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu gymell drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio).

**Aflonyddu:** llwybr ymddygiad gan berson y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall; ac at ddiben y diffiniad hwn:
(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu, neu'n cynnwys aflonyddu, pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth o'r farn bod y llwybr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall; ac
(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys siarad.

**Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA):** Gweithiwr arbenigol hyfforddedig sy'n cynorthwyo gyda gwaith achosion yn y tymor byr a chanolig ar gyfer dioddefwyr risg uchel cam-drin domestig.

**Awdurdod Lleol** (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf): Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

**MARAC:** Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

**Gwasanaeth Cyhoeddus**: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wasanaethau a ddarperir er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir trwy'r trydydd sector, trwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau ar gontract allanol.

**Awdurdodau perthnasol**: cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

**Camfanteisio rhywiol** (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson:
(a) sy'n cynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru a Lloegr;
neu
(b) a fyddai'n cynnwys cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

**Trais rhywiol** (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf): rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol.

**Y Ddeddf**: Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.